OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 842 (Cy. 115)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn rhagnodi'r swm y mae awdurdod lleol yn rhagdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf"). Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Rheoliadau Asesu") a Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Deuant i rym ar 9 Ebrill 2012.

Mae adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth asesu gallu person i dalu am lety o dan Ran 3 o'r Ddeddf, ragdybio, yn niffyg anghenion arbennig, y bydd angen swm rhagnodedig ar berson at ei anghenion personol bob wythnos. Mae rheoliad 2 yn rhagnodi £24.00 fel y swm sydd ei angen at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 3 yn dirymu rheoliad 2 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2011 a oedd gynt yn rhagnodi'r swm at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Asesu fel bod y terfyn cyfalaf a nodir yn rheoliad 20A yn newid i £23,250.

Mae rheoliad 5 yn gwneud rhai diwygiadau technegol i Reoliadau 2003. Yn flaenorol, yr oedd dau derfyn cyfalaf, terfyn isaf a therfyn uchaf, a oedd yn cael eu

defnyddio i asesu gallu unigolyn i dalu am lety o dan Ran 3 o'r Ddeddf. Yng Nghymru, yn rhinwedd Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010, rhoddwyd un terfyn cyfalaf yn lle'r ddau derfyn cyfalaf. Mae rheoliad 5 yn dileu cyfeiriadau at y terfyn isaf sy’n aros yn Rheoliadau 2003.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Is-adran Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 842 (Cy. 115)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *16 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *9 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ebrill 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1948 p.29. Gweler adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the Minister" a "prescribed" yn eu trefn, ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a throsglwyddwyd hwy wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**Symiau sydd eu hangen at anghenion personol**

**2.** Y swm y mae awdurdod lleol i ragdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yw £24.00 yr wythnos.

**Dirymu**

**3.** Mae rheoliad 2 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2011(**1**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

**Diwygio rheoliad 20A o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992**

**4.** Yn Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**2**), ym mharagraff (2) o reoliad 20A (Terfyn cyfalaf – Cymru), yn lle'r ffigur "£22,500" rhodder y ffigur "£23,250".

**Diwygio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ar ôl y diffiniad o "y Rheoliadau Asesu" mewnosoder—

"ystyr "terfyn cyfalaf" ("*capital limit*") yw'r swm cyfalaf a bennir yn rheoliad 20A(2) o'r Rheoliadau Asesu."; a

(b) hepgorer y diffiniad o "terfyn cyfalaf isaf".

(3) Yn rheoliad 4(2)(b) ac (c), hepgorer "isaf" yn y ddau le y mae'n ymddangos.

(4) Mae rheoliad 5(2) drwy hyn wedi ei ddirymu(**4**).

*Gwenda Thomas*

---

(**1**) O.S. 2011/708 (Cy.110).

(**2**) O.S. 1992/2977 fel y'i diwygiwyd gan gyfres o offerynnau dilynol.

(**3**) O.S. 2003/931 (Cy.121).

(**4**) Mewnosododd rheoliad 5(2) baragraff (4) yn rheoliad 28 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992. Wedi hynny dirymwyd rheoliad 28 gan reoliad 2(4) o Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/662 (Cy.52)).

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Mawrth 2012